

Y Synhwyrâu

Tasg

Caewch eich llygaid a meddylwch yn ôl i'r amser pan oeddwch yn 7 mlwydd oed. Lle oeddech chi'n byw? Pwy oedd eich ffrind gorau? Beth oeddech chi'n caru? Beth oeddech chi'n casáu? Pa ddillad oeddech chi'n gwisgo? Beth oeddech chi'n gwneud ar y penwythnosau? Sut le oedd eich ystafell ddosbarth?...

Agorwch eich llygaid a nodwch un peth yr ydych yn cofio:

Gweld

Clywed

Teimlo

Arogli

Blasu

Haicw (1)

Hen fesur o Siapan yw'r Haicw ac mae'n dilyn patrwm sillafau arbennig.

Dwylo gwaith fy nhad
yn galed a charedig
ac oer fel marmor.

5 sillaf

7 sillaf

5 sillaf

Tasg

Ysgrifennwch Haicw am un o'r atgofion wnaethoch chi nodi yn yr ymarfer Synhwyrâu.

Haicw (2)

Bore o wanwyn	5 sillaf
â'r gwenyn yn busnesan	7 sillaf
a'u bysedd yn fêl.	5 sillaf

Tasg

Gorffennwch yr Haicw isod.

Aeth dail yr hydref

Limrig

Mesur sionc a doniol yw'r Limrig sy'n dilyn patrwm curiadau ac odlau arbennig.

Roedd <u>dyn</u> bach yn <u>byw</u> yn Hong <u>Kong</u>	3 churiad
Oedd yn <u>hoff</u> iawn o <u>chwarae</u> ping <u>pong</u> ,	3 churiad
Doedd <u>ganddo</u> ddim <u>bat</u>	2 guriad
na <u>phêl</u> come-to- <u>that</u> ...	2 guriad
Deud ' <u>gwir</u> roedd o'n <u>chwara</u> ' fo'n <u>rong</u> .	3 churiad

Geraint Lovgreen

Tasg

Gorffennwch y Limrig isod.

Roedd dynes yn byw ym Mhwllheli...

Telyneg

Dyma rai nodweddion sy'n gwneud Telyneg dda:

- Cynnil
- Teimladwy
- Gwneud rhywbeth mawr yn fach neu rhywbeth bach yn fawr
- Gwreiddiol
- Odl?
- Mesur?

Tasg

Meddyliwch am berson rydych chi wedi gweld yn ystod yr wythnos ddiwethaf - ddim rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda, ond rhywun wnaethoch chi sylwi arnynt ar hyd y lle. - beth oedden nhw'n gwisgo? Beth oedd oed y person? Lle oedden nhw'n mynd? Lle maen nhw'n byw? Sut maen nhw'n teimlo a pham? Beth yw eu stori? Dydych chi ddim o reidrwydd yn mynd i wybod yr atebion hyn, ond crëwch ddarlun o'r person yma ar ffurf Telyneg.

Enw:

RHYBUDD: Mae'r gerdd yn ymdrin â phwnc sensitif. Awgrymir ystyried os yw'r gerdd yn addas ar gyfer y dosbarth cyn ei defnyddio fel enghraifft.



Tro Gwael

Gwisgodd ei grys West Ham,
er ei fod yn rhy fach yn barod,
i ddangos fod yr anrheg
pen-blwydd yn plesio.

Daeth â'i albwm sticeri
fel y gwelai mor ddiwyd y bu.

Bu'n ymarfer,
yn gyrru'i fam o'i cho'
â sŵn y bêl
yn dyrnu talcen y tŷ.

A neithiwr,
gwylodd y gêm
fel bod ganddo sgwrs.

Ond ar ei ben ei hun
ar fainc yn y parc
y treuliodd y bore
yn magu'r bêl yn ei gôl.

Gwennan Evans